| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Crëwyd:** | 19/07/2018 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.02 |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 19/05/2021 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Addysg |
| **Man Gweithio:** | Gwasanaeth Ieuenctid |
| **Manylion cyswllt:** | 01443 863197<br>oneilp@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Ffurflen Gofrestru a Chaniatâd y Gwasanaeth Ieuenctid a Chaniatâd Rhiant / Gofalydd ar gyfer Ymweliadau Ysgol (gan gynnwys: Ffurflen Ganiatâd Cynrychiolwyr y Fforwm Iau) |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddarparwch wrth gwblhau'r ffurflenni cofrestru a chaniatâd. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Diben y gwaith prosesu**

Ffurflen Gofrestru a Chaniatâd y Gwasanaeth Ieuenctid

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch ar Ffurflen Gofrestru'r Gwasanaeth Ieuenctid, ynghyd ag unrhyw fanylion cyswllt ychwanegol rydych chi'n eu darparu, at ddibenion cofrestru a gweinyddu'r gwasanaeth.

Gellir defnyddio manylion cyswllt i gysylltu â pherson ifanc am weithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid neu riant/gwarcheidwad neu berson a enwir mewn sefyllfa frys neu am resymau penodedig eraill os nad ydych wedi dewis peidio â bod yn rhan o'r cyfathrebiadau hyn. Efallai y byddwn ni hefyd yn defnyddio'ch manylion cyswllt at ddibenion cynnal sesiynau grŵp rhithwir a chyfathrebu â'ch plentyn trwy ystod o raglenni neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n rhoi caniatâd iddyn nhw.

Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am bresenoldeb unigolion, a thystysgrifau a chymwysterau a gyflawnwyd. Mae hyn yn helpu'r gwasanaeth ieuenctid i adrodd ar faint o bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth a faint o bobl ifanc sy'n derbyn tystysgrifau.

Caniatâd Rhiant / Gofalydd ar gyfer Ymweliadau Ysgol

Gofynnwn am ganiatâd i bobl ifanc fynychu gweithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid sydd oddi ar y safle (e.e. nid mewn clwb neu ganolfan ieuenctid) a allai olygu y bydd y plant yn cael eu cludo gan staff.

Mae copi caled o'r wybodaeth hon yn cael ei gario gyda'r Uwch Weithiwr Ieuenctid a'r Rheolwr Cyswllt yn ystod y daith ac yna'n cael ei rwygo ar ôl i'r daith orffen. Mae copi o'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei storio'n ddiogel ar system i sicrhau bod yr holl brosesau

iechyd a diogelwch wedi'u dilyn a bod y caniatadau cywir a'r mesurau diogelwch yn eu lle er mwyn i weithgaredd neu daith fynd yn ei flaen.

Caniatâd i Dynnu Lluniau, ac ati

Os ydych yn caniatáu i ffotograffau / sain / fideos o'ch plentyn gael eu defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wedyn gellir defnyddio unrhyw ffotograffau / sain / fideos a gymerir at y diben hwnnw.

Weithiau, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn tynnu lluniau o sesiynau neu ddigwyddiadau sy'n dangos darpariaeth gwaith ieuenctid. Er enghraifft, pobl ifanc yn cymryd rhan mewn sesiwn gwaith ieuenctid mewn clwb neu brosiect, pobl ifanc yn dysgu sgil newydd, pobl ifanc yn ennill tystysgrifau mewn digwyddiad dathlu, pobl ifanc mewn cyfarfod gyda phenderfynwyr ac ati.

Gellir defnyddio'r ffotograffau hyn:
- fel tystiolaeth o gyflawni gwaith ieuenctid at ddibenion monitro ansawdd gan staff y gwasanaeth ieuenctid
- ar gyfer cyflwyniadau o waith y gwasanaeth i uwch reolwyr ac aelodau etholedig yr Awdurdod Lleol,
- ar gyfer arddangosfeydd mewn clybiau ieuenctid,
- ar gyfer cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r gwasanaeth ieuenctid, fel taflenni, posteri, datganiadau i'r wasg, y wefan neu gyfryngau cymdeithasol y gwasanaethau ieuenctid fel Facebook neu Twitter.

Mae rhai prosiectau hefyd yn gwneud clipiau sain neu fideo i'w defnyddio i hyrwyddo'r gwaith a gwblhawyd. Er enghraifft, mae'r Fforwm Iau a'r Fforwm Ieuenctid yn aml yn gwneud straeon digidol sy'n cael eu rhannu gyda'r fforwm, gydag aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor.Gall prosiectau neu glybiau eraill wneud recordiadau i ddangos/dathlu eu cyflawniadau neu esbonio beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Os credir y gall plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl o gael ei niweidio, dilynir Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a fydd yn arwain at gyfeirio gwybodaeth i Wasanaethau Plant a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth, er enghraifft yr heddlu, y gwasanaeth iechyd neu'r maes addysg.

Yn yr un modd, os credir y gall plentyn neu berson ifanc fod yn ymwneud â, neu mewn perygl o, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â throseddu, gellir rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn yr Awdurdod Lleol, partneriaid y tu allan i'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod:

Ffurflen Gofrestru'r Gwasanaeth Ieuenctid a Chaniatâd Rhiant/Gofalydd ar gyfer Ymweliadau Ysgol

1f. mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r testun data yn blentyn.

Caniatâd ar gyfer defnyddio ffotograffau, ac ati

1a. mae'r testun data wedi rhoi caniatâd i brosesu ei ddata personol ar gyfer un neu fwy o ddibenion penodol;

Mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd am brosesu'r wybodaeth hon yn ôl. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y mae ei fanylion ar frig y ddogfen hon.

Os byddwch yn tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fyddwn bellach yn defnyddio ffotograffau / fideos o'ch plentyn mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd newydd a gynhyrchir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fodd bynnag, efallai na fyddwn yn gallu tynnu'r deunydd cyhoeddusrwydd sydd eisoes wedi'i gynhyrchu / ei gylchredeg yn ôl.
Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

<u>Gwybodaeth am gydraddoldeb (Ffurflen Gofrestru'r Gwasanaeth Ieuenctid) - Dewisol</u>

8 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu -
- (a) is of a specified category of personal data, and
- (b) yn angenrheidiol at ddibenion nodi neu adolygu'n barhaus y fodolaeth neu'r absenoldeb o gyfleoedd neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl a bennir mewn perthynas â'r categori hwnnw gyda'r bwriad i alluogi cydraddoldeb o'r fath i gael ei hyrwyddo neu ei gynnal,

<u>Gwybodaeth Feddygol (Caniatâd Rhieni / Gofalydd EV4a ar gyfer Ymweliadau Ysgol)</u>

18 (1) Cyflawnir yr amod hwn os-
- (a) mae'r brosesu yn angenrheidiol er mwyn-
  - (i) amddiffyn unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu
  - (ii) amddiffyn lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn,
- (b) mae'r unigolyn—
  - (i) dan 18 oed, neu
  - (ii) yn 18 oed neu dosodd ac mewn perygl,
- (c) cynhelir y prosesu heb ganiatâd y testun data am un o'r rhesymau a restrir yn is-baragraff (2), ac
- (ch) mae'r brosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol / Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd y ddarpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid sy'n cael ei defnyddio (e.e. clwb ieuenctid neu brosiect ieuenctid) a'r tîm Gwasanaethau Ieuenctid canolog.

Bydd mynediad i'ch gwybodaeth yn cael ei reoli, gan ganiatáu i reolwyr perthnasol a Swyddogion Data sydd wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Adran Addysg gael mynediad at y wybodaeth y mae angen iddynt ei gweld, pan fydd ei hangen arnynt, i gefnogi darpariaeth ddiogel y gwasanaethau ieuenctid ac addysg i bobl ifanc yng Nghaerffili.

Os bydd pobl ifanc yn cwblhau rhaglen ddysgu achrededig, bydd angen rhannu gwybodaeth o'r ffurflenni cofrestru gyda'r corff dyfarnu, e.e. CBAC, Agored Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog ac ati. Ynghyd â hyn, bydd llyfrau gwaith, yr oriau a'r dyddiadau y bu'r person ifanc yn ymwneud â'r rhaglen, a thystiolaeth fideo, sain a ffotograffig o'r gwaith.

Bydd Ymgynghorydd Strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Addysg Awyr Agored hefyd yn cael mynediad at wybodaeth o ffurflenni caniatâd ar gyfer gweithgareddau. Mae'r ymgynghorydd hwn yn cael ei gyflogi gan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ac mae'n goruchwylio'r gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r wybodaeth a gymeradwyir gan yr Ymgynghoryddhwn yn cael ei storio ar system (EVOLVE) a ddarperir gan eduFOCUS Ltd.

Os ydych chi wedi caniatáu i ni ddefnyddio deunydd ffotograffig / sain / fideo, efallai y bydd Uned Gyfathrebu'r Cyngor hefyd yn gallu cael mynediad at y rhain ar gyfer datganiadau i'r wasg, negeseuon Twitter, ac ati.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Cedwir ffurflenni Cofrestru a Chaniatâd y Gwasanaeth Ieuenctid am hyd at un flwyddyn. Pan fydd ffurflenni cofrestru newydd yn cael eu llenwi, mae'r hen ffurflen cofrestru yn cael eu difa'n ddiogel.

Cedwir cofrestri o bresenoldeb yn ddiogel am 15 mlynedd, ac yna cânt eu dileu.

Ar hyn o bryd, cedwir ffurflenni Caniatâd Rhiant / Gofalydd ar gyfer Ymweliadau Ysgol am gyfnod amhenodol

Caiff ffurflenni caniatâd i dynnu lluniau eu storio'n ddiogel am hyd at 5 mlynedd, yn ogystal â ffotograffau a recordiadau sain / fideo.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb